Culture, Media and Sport Committee

# Siarter cefnogwyr cerddoriaeth fyw ac electronig

# Dathliad

Dylid gwerthfawrogi cerddoriaeth fyw nid ar gyfer gwneud arian yn unig, ond er budd y cyhoedd.

- Dylai'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gomisiynu ymchwil i gryfhau data ynglŷn â genres cerddoriaeth fyw ac electronig sydd wedi'u tangynrychioli, er mwyn darparu gwell llyw ar gyfer penderfyniadau polisi ac ariannu.
- Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod amrywiaeth diwylliannol mewn cerddoriaeth yn cael ei ymgorffori'n llawn mewn cynlluniau cerddoriaeth lleol.
- Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig weithio gyda meiri rhanbarthol a chynghorau lleol ar beirianweithiau i gefnogi llwybrau gyrfa mewn cerddoriaeth ar draws pob genre. Dylai ddatblygu'r strategaeth hon ar gyfer gyrfaoedd mewn cerddoriaeth mewn cydweithrediad â'r diwydiant a cheisio cefnogaeth llywodraethau'r cenhedloedd datganoledig i'r gwaith hwn.
- Dylai cynghorau a dinasoedd sydd eisiau dathlu eu hecosystem cerddoriaeth fyw leol gyhoeddi strategaeth gerddoriaeth, gan gynnwys eu hymwneud â chynlluniau hyrwyddwyr diwylliannol fel y Rhwydwaith Dinasoedd Cerddoriaeth, Dinas/Tref Diwylliant y Deyrnas Unedig a Dinasoedd Creadigol UNESCO.
- Dylai'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sefydlu sioe deithiol flynyddol, gylchynol, fydd yn dathlu cerddoriaeth fyw ac electronig. Dylai hyn fod yn ychwanegol at y Ddinas/Tref Diwylliant a dylai geisio dathlu treftadaeth cerddoriaeth leol yn y lleoliad a ddewisir.

# Tocynnau

Delio â chefnogwyr â pharch gan ddarparu tryloywder a rhoi terfyn ar gamfanteisio ariannol.

- Mae cefnogwyr yn bryderus ynglŷn â goruchafiaeth cwmnïau mawr yn y farchnad. Dylai'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) fonitro'r safle sydd gan gorfforaethau mawr yn niwydiant cerddoriaeth fyw y Deyrnas Unedig, gan sicrhau nad yw'n anfanteisio cefnogwyr.
- Dylai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddarparu eglurder ynglŷn â rhannu data cefnogwyr a chyhoeddi canllawiau perthnasol i'r diwydiant cerddoriaeth fyw ynglŷn â defnydd tryloyw a diogel o'r data hynny. Mae'n bwysig y gall artistiaid a hyrwyddwyr gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn cynllunio a hyrwyddo sioeau ac ymateb i'r galw lleol, gan ddiogelu hawliau data'r cefnogwyr drwy'r cyfan.
- Dylai'r llywodraeth gyflwyno deddfwriaeth yn ddi-oed i wahardd ailwerthu tocynnau am bris uwch na'r gwerth enwol a dylent sicrhau mesurau cadarn i sicrhau y cedwir at y ddeddfwriaeth.
- Lle bydd strategaethau fel prisio fesul haen yn cael eu defnyddio wrth werthu tocynnau ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth fyw, dylid cyfleu hynny'n eglur ymlaen llaw a'u gweithredu mewn modd tryloyw. Yn dilyn ymchwiliad y CMA, dylai'r diwydiant barhau i ymwrthod â chyflwyno prisio ymchwydd deinamig ar gyfer gigs.
- Dylai'r llywodraeth gryfhau mesurau diogelu defnyddwyr drwy wneud gwybodaeth eglur rhag blaen ynglŷn â pholisïau ad-dalu ac opsiynau yswiriant addas yn ofynnol mewn mannau gwerthu tocynnau a llwyfannau ar-lein.
- Dylai'r diwydiant cerddoriaeth fyw weithio mewn partneriaeth â sefydliadau a arweinir gan anabledd i safoni trefniadau tocynnau hygyrch ar draws pob llwyfan a darparwr, gan sicrhau prosesau archebu cyson a mynediad cyfartal at docynnau, tocynnau i gymdeithion, opsiynau ailwerthu ac ad-daliadau i gefnogwyr anabl.

# Llawr gwlad

Meithrin cerddoriaeth fyw llawr gwlad a chymunedol er ei fwyn ei hun ac fel meithrinfa ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.

- Dylai'r diwydiant cerddoriaeth a chynghorau lleol gydweithio i gefnogi cynlluniau mentora ar gyfer hyrwyddwyr a chynhalwyr lleoliadau lleol newydd.
- Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau pwerau i'w hun yn ei deddfwriaeth tocynnau sydd ar y gweill i gyflwyno ardoll orfodol ar ddigwyddiadau mawr er mwyn ailddosbarthu adnoddau i leoliadau, gwyliau a hyrwyddwyr llawr gwlad ac artistiaid newydd petai'r gweithdrefnau gwirfoddol yn profi'n annigonol.
- Dylai awdurdodau lleol, lleoliadau, artistiaid a chefnogwyr weithio gyda'i gilydd i gynnal rhestri cyfredol o ddigwyddiadau lleol er mwyn i gynulleidfaoedd gael gwybod yn rhwydd beth sy'n digwydd yn eu hardal.
- Dylai hyrwyddwyr, artistiaid sy'n teithio a rheolwyr roi blaenoriaeth i dalent sy'n blaguro drwy ddarparu llwyfannau i artistiaid newydd, gan gynnwys cyfleoedd i artistiaid lleol berfformio'n fyw.
- Mewn contractau ar gyfer lleoliadau mawr, dylid annog a chaniatáu i artistiaid a rheolwyr chwarae mewn lleoliadau llai er mwyn cryfhau'r diwylliant lleol a gwneud lleoliadau llawr gwlad yn fwy gweladwy.
- Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig ymgorffori egwyddor 'cyfrwng newid' mewn deddfwriaeth cynllunio yn Lloegr. Gan ddilyn enghraifft yr Alban, hoffem weld yr egwyddor yn cael ei gryfhau yn y gyfraith ar draws y Deyrnas Unedig gyfan.
- Dylai awdurdodau lleol annog addasu adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddefnydd gwahanol fel gofodau ar gyfer cerddoriaeth fyw ac electronig er budd diwylliannol a chymunedol. Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mewn ymgynghoriad â'r llywodraethau datganoledig, dynnu ar yr arferion gorau er mwyn sefydlu canllawiau cenedlaethol eglur i gefnogi cysondeb ar draws awdurdodau lleol.
- Dylai fod gan awdurdodau lleol aelod cabinet sydd â 'cherddoriaeth' wedi'i nodi o fewn eu portffolio.
- Dylai'r sector cerddoriaeth fyw ac electronig fabwysiadu rhagdybiaeth yn erbyn y defnydd o arferion cyfyngol megis 'cymalau radiws'.

# Diogelwch

Rhoi blaenoriaeth i ddiogelu cefnogwyr rhag niwed trwy anafiadau, troseddau, trais, aflonyddu a chamwahaniaethu mewn gigs ac o'u hamgylch.

- Dylai lleoliadau, gwyliau a hyrwyddwyr sicrhau arwyddion eglur, gweladwy a gweithdrefnau adrodd diogel i gefnogwyr sy'n dioddef neu'n dyst i aflonyddu, ymosodiadau neu unrhyw bryderon diogelwch eraill, gan gynnwys opsiynau digidol fel codau QR.
- Dylai lleoliadau a gwyliau sicrhau hyfforddiant lles a diogelu cyson i'w holl staff a gwirfoddolwyr.
- Dylai cwmnïau diogelwch trydydd-parti ddarparu hyfforddiant i'w staff i ddiwallu anghenion diogelu'r cefnogwyr, gan gynnwys ymateb i ymosodiadau rhywiol, ymwybyddiaeth o anabledd, ac arferion gwrth-wahaniaethol. Dylai'r diwydiant cerddoriaeth a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mewn ymgynghoriad â'r llywodraethau datganoledig, gydweithio er mwyn sicrhau bod lefel newydd o ardystio ar gael.
- Dylai lleoliadau a chwmnïau trydydd-parti adolygu eu harferion recriwtio er mwyn sicrhau bod timau lleoliadau yn adlewyrchu amrywiaeth y cynulleidfaoedd.
- Dylai mudiadau cefnogwyr gydweithio â'r diwydiant ac awdurdodau lleol i greu Cod Ymarfer cefnogwyr tuag at ei gilydd y dylai'r holl gefnogwyr gadw ato. Dylai'r Cod Ymarfer hwnnw gael ei osod yn weladwy wedyn ym mhob lleoliad a gŵyl gerddorol.
- Dylai awdurdodau lleol gydlynu â lleoliadau a digwyddiadau, yn enwedig gweithredwyr llai, er mwyn sicrhau bod cefnogwyr yn ddiogel cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiadau cerddoriaeth fyw ac electronig.
- Dylai lleoliadau ac awdurdodau lleol weithio'n agos gyda gwasanaethau iechyd y cyhoedd perthnasol i ddarparu mynediad at wasanaethau lleihau niwed, megis profi am gyffuriau, yn enwedig mewn digwyddiadau a gwyliau ar raddfa fawr, a deunyddiau addysgol i staff a chynulleidfaoedd ynglŷn â defnyddio cyffuriau a sut i ymateb mewn argyfyngau. Dylai'r Swyddfa Gartref ehangu gwasanaethau trwyddedig i brofi am gyffuriau lle gwelir bod hynny'n lleihau niwed i gefnogwyr.
- Dylai lleoliadau a gwyliau ddarparu dŵr yfed diogel yn rhad ac am ddim ym mhob digwyddiad, mewn amryw o leoliadau gan gynnwys ardaloedd nad ydynt yn fariau.
- Dylai lleoliadau, gwyliau a hyrwyddwyr hyrwyddo diogelwch y clyw fel rhan bwysig o'r profiad cerddoriaeth byw. Dylai plygiau clustiau fod ar gael yn rhwydd i'r rhai sydd eisiau eu cael y mhob digwyddiad cerddoriaeth fyw ac electronig.

# Hygyrchedd

Meddwl am fynediad i bawb bob amser a gweithredu'n unol â hynny.

- Lle bo modd, dylai lleoliadau weithio tuag at neilltuo lleiafswm o 2% o gyfanswm eu capasiti ar gyfer mannau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y targed hwn yn rhan o ofynion cynllunio ar gyfer lleoliadau newydd neu rhai a adnewyddir.
- Dylai hyrwyddwyr ac artistiaid ystyried anghenion mynediad cynulleidfaoedd a hygyrchedd lleoliadau wrth archebu sioeau a theithiau.
- Dylai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, mewn ymgynghoriad â sefydliadau a arweinir gan anabledd, ddarparu canllawiau eglur ynglŷn â'r hyn sy'n cyfrif fel addasiadau rhesymol mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw ac electronig, dan do ac yn yr awyr agored. Rydym yn argymell adolygiad tebyg o hygyrchedd mewn digwyddiadau byw yng Ngogledd Iwerddon er mwyn sicrhau na fydd cefnogwyr anabl yn cael eu heithrio.
- Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrff y diwydiant cerddoriaeth, mewn ymgynghoriad â'r llywodraethau datganoledig, gomisiynu sefydliadau a arweinir gan anabledd i ddatblygu nod barcud mynediad anabl i'r Deyrnas Unedig gyfan ar gyfer pob darparwr trydydd-parti, megis y rhai sy'n darparu seilwaith i ddigwyddiadau, diogelwch, hyfforddiant a thocynnau. Dim ond darparwyr â'r nod barcud y dylai lleoliadau a gwyliau eu defnyddio.
- Lle bo modd, dylai lleoliadau a gwyliau annog pawb sydd ar y safle yn ystod digwyddiad byw i fabwysiadu egwyddorion 'maniffesto ymlaciedig' Stay Up Late er mwyn hyrwyddo profiad parchus a chynhwysol i bawb.
- Dylai lleoliadau ddarparu gwybodaeth eglur ynglŷn â chynllun eu lleoliad, gan wahodd adborth rheolaidd gan gefnogwyr ynglŷn â lle y dylid gwneud gwelliannau hygyrchedd. Lle bo modd, rydym yn argymell y dylai lleoliadau ddarparu 'teithiau ymweld' rhithiol ar eu gwefannau.
- Dylai lleoliadau, gwyliau a hyrwyddwyr ymrwymo i raglenni amrywiol er mwyn sicrhau bod yr artistiaid a lwyfennir, gofodau ac amseriadau yn adlewyrchu eu cymunedau.

# Trafnidiaeth

Gwneud cerddoriaeth fyw yn rhan ganolog o bolisi a chynlluniau trafnidiaeth ym mhobman.

- Dylai'r Adran Drafnidiaeth, mewn partneriaeth â'r llywodraethau datganoledig, awdurdodau lleol a gweithredwyr trafnidiaeth, gomisiynu ymchwil i fylchau symudedd economi'r hwyrnos rhwng dinasoedd, trefi a chymunedau gwledig.
- Dylai awdurdodau lleol a darparwyr trafnidiaeth gydweithio â lleoliadau i arddangos gwybodaeth gyfredol a dibynadwy ynglŷn â thrafnidiaeth y tu mewn i leoliadau cerddoriaeth ac mewn mannau gwybodaeth ac allanfeydd gwyliau.
- Dylai gweithredwyr trafnidiaeth sicrhau bod opsiynau trafnidiaeth hygyrch ar gael i bobl sydd ag anghenion hygyrchedd. Dylai awdurdodau lleol adolygu darpariaeth parcio i'r anabl ger lleoliadau cerddoriaeth fyw ac electronig er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu'r galw.
- Dylai awdurdodau lleol a gweithredwyr trafnidiaeth gydlynu er mwyn gwneud amserlenni trafnidiaeth hwyr y nos yn gydnaws ag amserau cau digwyddiadau a lleoliadau cerddoriaeth fyw ac electronig.
- Dylai lleoliadau, hyrwyddwyr a llwyfannau tocynnau ddatblygu a mabwysiadu safon ar gyfer y diwydiant cyfan ar gyfer cyhoeddi amserau dechrau a gorffen perfformiadau yn eglur fel y gall cefnogwyr gynllunio eu teithiau adref ymlaen llaw.
- Dylai rhwydweithiau lleol cerddoriaeth fyw ac electronig, gan gynnwys hyrwyddwyr a lleoliadau, ystyried y galw am amserau cynharach ar gyfer perfformiadau cerddoriaeth fyw a digwyddiadau yn ystod y dydd.

# Llais

Gwrando ar lais cefnogwyr cerddoriaeth o bob genre a'i hyrwyddo a'i gefnogi.

- Dylai'r llywodraeth a'r diwydiant cerddoriaeth sefydlu a chyllido Cymdeithas Cefnogwyr Cerddoriaeth, yn debyg i'r hyn a geir mewn pêl-droed, er mwyn galluogi gwell cynrychiolaeth i gefnogwyr mewn polisïau, hawliau defnyddwyr, a phrosesau gwneud penderfyniadau ym maes cerddoriaeth. Dylai'r llywodraeth ddarparu cyllid hadu cychwynnol, gyda'r diwydiant cerddoriaeth yn ymgymryd â rôl hirdymor fel partneriaid ariannu.

- Dylai awdurdodau lleol gynnal fforymau cerddoriaeth fyw ac electronig rheolaidd gyda chefnogwyr, hyrwyddwyr, perchenogion lleoliadau, cerddorion ac asiantiaid er mwyn dod i ddeall canfyddiadau cefnogwyr. Dylai'r fforymau fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i'r holl gefnogwyr a dylent eu hannog i godi eu llais yn agored ynglŷn â'u profiadau.

- Dylai'r llywodraeth gomisiynu arolwg cefnogwyr cerddoriaeth blynyddol o 2027 ymlaen er mwyn i'r llywodraeth, y diwydiant a rhanddeiliaid eraill gael gwybodaeth reolaidd ynglŷn â chanfyddiadau cefnogwyr cerddoriaeth fyw ac electronig. Dylai pob arolwg yn ei dro gynnwys archwiliad dwfn o genres gwahanol er mwyn sicrhau bod y llywodraeth, y diwydiant ac awdurdodau lleol yn deall genres, grwpiau a chynulleidfaoedd sy'n cael eu tangynrychioli.